**Atodiad 3: Canlyniadau Ymgynghoriad ar gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannu Cyhoeddus (GDMC) Caernarfon, Pwllheli a Cricieth**

- Agorwyd yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor ar 26/2/2024, a chyhoeddwyd datganiad i'r wasg ar 14/03/2024.
- Rhoddwyd copïau o'r gorchymyn drafft, map o ardal y gorchymyn, nodiadau esboniadol ac amlenni ymateb yn Llyfrgelloedd Caernarfon, Pwllheli a Cricieth, a Siop Gwynedd Caernarfon a Pwllheli.
- Rhoddwyd nifer o hysbysiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfnod yr ymgynghori.
- Rhoddwyd sylw a chyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad gan nifer o gyhoeddiadau, yn cynnwys North Wales Live, North Wales Chronicle, a Cambrian News.
- Rhannwyd negeseuon am yr ymgynghoriad ar cyfryngau'r Heddlu a'r Cynghorau Tref.
- Cysylltwyd â'r sefydliadau/unigolion â ganlyn, i wahodd hwy i ymateb i'r ymgynghoriad neu i ddarparu sylw am y bwriad i gyflwyno GDMC –
  -Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
  -Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
  -Cynghorau Tref Caernarfon, Pwllheli a Cricieth
  -Aelodau Lleol ardaloedd y gorchymyn
  -Aelodau Seneddol ardaloedd y gorchymyn
  -Busnesau o fewn yr ardaloedd y gorchymyn

**Ymatebion**

Derbyniwyd cyfanswm o 112 ymatebion i'r holiadur ymgynghoriad cyhoeddus, o'r rhain derbyniwyd yr atebion canlynol:

| Cwestiwn | Ie | Na | Ddim yn siŵr | Dim ateb |
|---|---|---|---|---|
| Oes angen GDMC yn yr ardal hon? | 82 | 7 | 20 | 3 |

| Cwestiwn | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn siŵr | Dim ateb |
|---|---|---|---|---|
| Beth yw eich barn ar yr ardal arfaethedig? | 74 | 20 | 15 | 3 |

| Cyfyngiad | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn siŵr | Dim ateb |
|---|---|---|---|---|
| 1. Ni chaiff unigolyn ddilyn dull o ymddygiad sy'n achosi aflonyddu, braw, niwsans, neu drallod | 101 | 5 | 3 | 3 |
| 2. Ni chaiff unigolyn yfed alcohol os yw Person Cymeradwy yn gofyn i'r unigolyn stopio yfed | 92 | 5 | 10 | 5 |
| 3. Ni chaiff person loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau | 95 | 5 | 10 | 2 |